GwE

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**25 TACHWEDD 2016**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Fframwaith Perfformiad Addysg – Grant Gwella Addysg |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno'r Fframwaith Perfformiad Addysg – Deilliannau a Thargedau 2016-17 i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Un o ofynion dyfarniad y Grant Gwella Addysg (GGA) 2016-17 yw bod consortia yn cwblhau'r Fframwaith Perfformiad Addysg. Bwriad y Fframwaith Perfformiad Addysg yw helpu i sicrhau bod mwy o ffocws ar ddeilliannau i'r trefniadau sydd ynghlwm â'r GGA.

2.2 Bwriad y Fframwaith yw rhoi sylw canolog i'r deilliannau pennaf, y prif ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n dangos tystiolaeth o gynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau hynny, a'r amserlenni a'r adnoddau a ddyrannir er mwyn cyflawni.

2.3 Gofynnir i gonsortia amlygu'r prif feysydd gweithredu ar gyfer gwella addysg drwy nodi'r prif 8-12 dangosydd perfformiad allweddol fydd yn dangos tystiolaeth o gynnydd tuag at y deilliannau lefel uwch.

2.4 Darperir yr wybodaeth mewn dogfen gryno ac iddi ddwy brif ran. Ar gyfer 2016-17, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gonsortia gasglu'r wybodaeth hon o'u cynlluniau busnes presennol a'u cynlluniau gweithredu ategol. Nid oes angen i gonsortia bennu dangosyddion perfformiad

newydd neu ychwanegol i'r hyn sydd wedi'i nodi a'i gytuno yn eu cynlluniau busnes presennol i gefnogi'r Fframwaith yn 2016-17.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Cyfanswm y Grant Gwella Addysg ar gyfer rhanbarth GwE yn 2016-17 yw £29,398,348, gyda £2,504,355 o arian cyfatebol, sy'n rhoi cyfanswm o £31,902,703.

3.2 Llwyddwyd i sicrhau cyfradd datganoli i ysgolion o 85% ar gyfer 2016/17.

3.3 Y blaenoriaethau lefel uwch, a amlinellir yn y drafft o'r fframwaith perfformiad, yw bod Awdurdodau Lleol yn parhau i weithio yn unol â'r Model Cenedlaethol cytunedig ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, gan arwain at:

- Wella addysgu a dysgu;
- Gwella deilliannau addysg, yn cynnwys llythrennedd a rhifedd, yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2, cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad (yn cynnwys er enghraifft y rheiny sy'n perthyn i grwpiau cydnabyddedig o ddysgwyr lle mae tangyflawniad yn bryder sylweddol, megis grwpiau'r rhywiau, disgyblion sydd ag ADY, SIY neu CIY, neu grwpiau ethnig lleiafrifol megis Dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr); a
- Gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n derbyn PYD a chau'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr PYD a'r rheiny nad oes ganddynt yr hawl i dderbyn PYD.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Fframwaith Perfformiad Addysg ar gyfer 2016-17.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE wrth ddatblygu'r ddogfen.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Fframwaith Perfformiad Addysg 2016-17.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.